

ABERGWYNGREGYN

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd.

Argraffiad

Argraffiadau: Fersiwn Terfynnol

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239
Cyfeiriad Cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth

1.0 Cyflwyniad
  1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
  1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth
2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig
3.0 Llinell Amser Hanesyddol
4.0 Dadansoddiad Gofodol
  4.1 Ffurf a Threfn
  4.2 Golygfeydd Allweddol
  4.3 Mannau Gleision a Choed
5.0 Cymeriad
  5.1 Trosolwg
  5.2 Cymeriad Pensaernïol
  5.3 Deunyddiau
  5.4 Ffiniau
  5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill
6.0 Asedau Hanesyddol
  6.1 Dynodedig
  6.2 Annynodedig
7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.
8.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
9.0 Asedau Dynodedig Eraill
10.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail ran: Cynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
    2.1 Cyflwr
    2.2 Adeiladau mewn Perygl
    2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
    3.1 Asesu Ffiniau
    3.2 Diogelwch Deddfwriaethol
    3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
    3.4 Cynaliadwyedd
    3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghoriad

Atodiadau

A. Ffynonellau



Y RHAN GYNTAF: GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyno a Pholisi Cynllunio**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol.Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol,** ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg Cyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Mae cwmpas ardal yr astudiaeth yn cael ei ddiffinio'n rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffigur 02), ond cynhwyswyd yr ardal o gwmpas (yn cynnwys yr ardal dirwedd gyfagos) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn briodol.

Lleoliad a Gosodiad


1.2.2 Pentref bychan yng Ngwynedd yw Abergwyngregyn. Mae'n sefyll ym Mharc Cenedlaethol Eryri ger arfordir Gogledd Cymru, rhyw 10k i'r dwyrain o Fangor a 6 km i'r gorllewin o Lanfairfechan.

1.2.3 Mae'r pentref yn gorwedd ar ochr ogleddol dyffryn Aber islaw mynyddoedd y Carneddau. Ffurfiwyd Afon Aber gan gydlifiad Afon Rhaeadr ac afon Anafon, sy'n cwrdd yn Bont Newydd, tua 0.75km i fyny'r dyffryn, i'r de-ddwyrain o'r pentref. Mae'r Afon Aber gyfunol yn llifo tua'r gogledd, rhwng y pentref a Phen-y-Bryn i'r dwyrain, yn mynd ar y gwastadedd arfor ac allan i'r môr. Mae dyffryn Rhaeadr yn arwain at y warchodfa natur, y tir yn codi'n serth islaw'r Drosgl, Bera Bach a Charnedd Gwenllian y tu hwnt. O'r copaon hyn i lawr i'r dyffryn llifa rhaeadr enwog Rhaeadr Fawr.



01 Abergwyngregyn o Ffridd Ddu

1.2.4 Dyddiad dynodi: 1978



Ardal Gadwraeth Bresennol
1:5000 ar A4

02 Ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Mae gan Abergwyngregyn le unigryw yn hanes Cymru, fel hoff lys Tywysogion Gwynedd a safle digwyddiadau arwyddocaol yn cynnwys marwolaeth gwraig Llywelyn ab Iorwerth, Siwan, yn 1237 a'i fab a'i olynydd, Dafydd, naw mlynedd wedyn. Cyn yr hanes canoloesol pwysig hwn, gwelwyd gweithgaredd pwysig yn y cyfnodau cynhanes, Rhufeinig a Normanaidd yn ogystal ag yn ddiweddarach, dyfodiad pobl fawr ar eu gwyliau oedd yn dod i weld y rhaeadrau. Mae o arwyddocâd hanesyddol eithriadol felly. Mae'r arwyddocâd hanesyddol hwn yn amlwg yng ngwead yr ardal mewn nifer o ffyrdd:

- Mae'r mwnt sydd wrth galon yr ardal gadwraeth a'r cae cyfagos, yn rhoi tystiolaeth i ymgais gan y Normaniaid i setlo a datblygiad tebygol y llys nesaf atynt.
- Mae'r mwnt yn amlwg iawn, yn enwedig o olygfeydd allweddol oddi uchod.
- Mae'r grŵp o strwythurau ym Mhen-y-Bryn yn adlewyrchu'r hanes canoloesol hwn, o bosibl fel fferm gartref i'r llys, wedi'u hategu gan y grŵp diweddarach o adeiladau rhestredig a chofrestredig.
- Mae'r ffordd gogledd-de, i fyny at Bont Newydd a'r rhaeadrau wedyn, yn cynnig cyswllt amlwg â'r ffordd Rufeinig gynnar dros y tir uchel i Gaerhun a'r llwybr cynnar ar draws y tywod i Ynys Môn.
- Rhoddodd twf y pentref o amgylch y ffordd dwyrain-gorllewin o'r 18fed ganrif a'i hadliniad diweddarach a arweiniodd at adeiladu'r Aber Falls Halt (bellach Hotel) ei gymeriad pendant i'r pentref.
- Yr ardal o gwmpas eglwys Sant Bodfan a'r fynwent, o bosibl yr ardal gynharaf o anheddiad a gweithgaredd crefyddol.

2.1.2 Mae gosodiad y tirlun a thopograffi Abergwyngregyn yn greiddiol i'w ddiddordeb arbennig. Mae golygfeydd at y bryniau o amgylch ac Afon Aber ac oddi wrthynt yn hanfodol i'r naws am le, fel y mae presenoldeb tir amaethyddol yng nghalon y pentref. Caiff y golygfeydd hyn eu disgrifio'n benodol yn nes ymlaen yn yr arfarniad hwn. Y prif olygfeydd sy'n dangos y berthynas hon yw:

- Golygfeydd o'r anheddiad o Ffridd Ddu ar draws blaendir amaethyddol gyda golygyfedd o'r mwnt a'r berthynas â'r arfordir a gosodiad Eglwys Sant Bodfan.



03 Aber o'r Ffridd, mae'r Mwnt a'r berthynas â'r arfordir yn amlwg.



04 Darlun o Ben-y-Bryn c.1811, Richard Colt-Hoare. (Wikimedia Commons).

- Golygfeydd allan o'r ardal gadwraeth tuag at y bryniau tu draw lle mae gosodiad mwy gwledig yn dechrau.
- Golygyfeydd ar draws y cae at y mwnt gyda chefnlen dywyll y goedwig y tu ôl yng nghanol y pentref.
- Golygfeydd tuag at Gapel Soar a'r felin wrth gerdded i fyny drwy'r pentref.

2.1.3 Mae'r dreftadaeth adeiledig sy'n sefyll yn Abergwyngregyn yn rhoi darlun haenog anarferol o glir i ni o'i wreiddiau a'i esblygiad, yn cael eu hadlewyrchu yn y bensaernïaeth, y deunyddiau a manylion. Mae elfennau allweddol yn cynnwys:

- Yr adeiladau o'r 18fed a'r 19eg ganrf ar aliniad yr hen ffordd dyrpeg, yn cynnwys Ceris, Prince Llewellyn Cottage a Bryn Tirion. Tai ffrynt dwbl o gryn faintioli, wedi'u rendro, Ceris wedi cadw'r ffenestri codi
- Yr Aber Falls Hotel a'r hen Café Royal, cyfosodiad neilltuol yn adlewyrchu rôl Aber fel cyrchfan i dwristiaeth modur cynnar.
- Bythynnod ystâd y Penrhyn, gyda'u manylder mwy cywrain a'u gwaith carreg.
- Y Felin a'r grŵp o amgylch hen Gapel Soar. Yn weledol bwysig fel grŵp ac yn dystiolaeth o ddatblygiad crefydd a diwydiant yn Aber.
- Tai is o darddiad cynharach o bosibl, waliau terfyn safadwy yng nghyd-destun gosodiad mwy gwledig, tuag at ffin ddeheuol yr ardal gadwraeth.
- Y grŵp arbennig, ond ar wahân (cofrestredig a Rhestredig) o strwythurau ym Mhen-y-Bryn.



05 Ceris ac adeiladau eraill o ddechrau'r G19eg y tu ôl i'r Aber Falls Hotel (2021).



06 Bythynodd rhestredig stad y Penrhyn (2021).

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cynhanes

3.1.1 Mae hanes Abergwyngregyn wedi'i gofnodi'n fanwl mewn llefydd eraill, bwriad y crynodeb isod yw rhoi cyd-destun yn unig.

3.1.2 Bu safle'r pentref yn un strategol yn hir. Ceir olion helaeth o gofadeliadau cynhanes, sy'n awgrymu presenoldeb ers y cyfnod Neolithig. Mae'n debyg mai safle eglwys St Bodfan ar godiad yn y tir i'r gorllewin o'r pentref yw lleoliad yr anheddiad cynharaf. Dymchwelwyd yr eglwys wreiddiol a'i hail-adeiladu yng nghanol yr G19eg ond mae'n gorwedd oddi mewn i amgaead bron yn gylch, neu lan. Mae nodweddion o'r fath fel arfer yn arwydd o sylfaen o ddechrau'r canol oesoedd, a gallai'r anheddiad eglwysig cynharaf fod wedi'i ddatblygu yma.

3.1.3 Ceir olion cynhanes gerllaw, er nad ydynt o fewn ardal yr astudiaeth, yn dyddio'n ôl i'r ail fileniwm CC. Canfuwyd olion pwysig ar y gwastatir, sy'n agrymu cryn dipyn o ffermio yng nghyfnodau Oes yr Haearn a'r Rhufeiniaid.

3.1.4 Mae Aber wedi'i leoli hefyd ar y ffordd rhwng y caearau Rhufeinig yng Nghaerhun (Canovium), yn Nyffryn Conwy a Chaernarfon (Segontium), a ddefnyddid fel llwybr mynydd lefel uchel o Rowen (yn nyffryn Conwy) i Fwlch-y-Ddeufaen (ar ben dyffryn Anafon) i lawr i Aber. Credir fod yr aliniad wedyn yn dilyn yr hen ffordd dyrpeg, o bosibl yn croesi'r aber ar bwynt tebyg. Mae rhan o'r ffordd Rufeinig ar y bwlch mynyddig wedi'i chofrestru (CN402).

3.1.5 Roedd rheoli cyffordd ffyrdd yr arfordir a'r ucheldir yn allweddol i bwysigrwydd Abergwyngregyn a'r rheswm pam yr adeiladwyd castell bychan ar domen yno, o bosibl yn ystod ymgyrch gan Iarll Normanaidd Caer yn ystod ymgais aflwyddiannus i ddarostwng Gwynedd rhwng 1081-1090.

3.1.6 Yn y drydedd ganrif ar ddeg roedd Gwynedd wedi'i rhannu'n 22 ardal or enw cwmwd, pob un yn cael ei gweinyddu o lys. Roedd y llys yn cynnwys grŵp o adeiladau a oedd fel arfer yn cynnwys cyntedd, cegin, stablau a strwythurau domestig cysylltiedig eraill.

3.1.7 Roedd y llys brenhinol yn teithio trwy'r canolfannau hyn, yn casglu trethi, yn gweinyddu cyfiawnder ac yn diddanu. Y llys oedd canolbwynt y faerdref, sef tregordd frenhinol gyda thir cysylltiedig. Gwyddom o ddogfennau



07 Map degwm o Abergwyngregyn, 1848.



08 Darlun o Pennant's 'Tours in Wales'. Yn dangos y Mwnt. Gan Moses Griffith mae'n debyg. c.1773. (NLW).

hanesyddol mai Abergwyngregyn oedd maendref cwmwd Arllechwedd Uchaf a safle un o hoff lysoedd tywysogion Gwynedd. Deellir fod Arllechwedd Uchaf yn gorchuddio sawl mil o erw o'r môr i ardaloedd pori ar y tir uchel o gwmpas Drosgl.

3.1.8 Bu union leoliad y llys yn destun cryn drafodaeth. Yn 1537, cysylltodd yr hynafiaethydd o Loegr, John Leland, y llys â safle'r eglwys a'r mwnt). Yn ystod diwedd yr 19eg a dechrau'r ugeinfed ganrif, awgrymwyd y gallai fod yn gysylltiedig â'r safle lle mae Pen-y-Bryn yn awr (CN218). Ar ddiwedd 1992 bu Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (adroddiad GAT, Pen-y-Bryn, 55, 1992) yn cloddio ym Mhen-y-Bryn. Casgliad yr archwiliad hwn oedd mai lleoliad mwyaf tebygol y llys oedd ger y mwnt, 'rhaid i agosrwydd y mwnt Normanaidd fod y prif ymgeisydd ar gyfer unrhyw waith pellach i leoli'r llys yn Aber (t.11). Yn sgil cloddio yn 1993 (adroddiad GAT Ty'n y Mwd, 1092, 1994) andabuwyd tŷ cyntedd i ochr dde'r mwd. Canfu gwaith cloddio pellach yn 2010 hyd a lled llawn y tŷ gyda thystiolaeth yn ei ddyddio i'r 13eg G ac wedi hynny[1]

3.1.9 Gyda gorchfygiad Llywelyn ap Dafydd, fu farw yn 1282, ilidwyd tiroedd i Goron Lloegr. Erbyn i Leland gyrraedd Aber yng nghanol yr 16eg ganrif, roedd tir yn y plwyf yn eiddo i deuluoedd lleol. Rice Thomas oedd y lesddeiliad yn 1551 ac yna cafodd y grant. Prynodd Syr William Thomas y les a'r grant gyda'i gilydd yn 1610. Mae'n rhaid bod y teulu mewn trafferthion ariannol erbyn 1678 pryd y cafwyd trafodaethau i werthu'r tir yn y faenor i deulu Bulkeley Baron Hill (Biwmares). Daliodd y Bulkeleys Arglwyddiaeth y Faenor o 1715, os nad yn gynt.

3.1.10 Y ffordd hanesyddol gogledd-de drwy Aber oedd y brif ffordd tan y ddeunawfed ganrif, yn dilyn y ffordd Rufeinig yn fras.

3.1.11 Yn 1772 talodd llywodraethau San Steffan a Dulyn am welliannau i ffordd yr arfordir ym Mhenmaenmawr. Roedd hon yn golygu llai o angen teithio dros y bwlch uchel a daeth y ffordd gogledd-de yn llai pwysig, a'r ffordd ddwyrain-gorllewin yn dod yn brif ffordd.

3.1.12 Gyda dyfodiad y ffordd well o Gonwy ar ddechrau'r 19eg ganrif, atgyfnerthwyd safle Aber fel man stopio rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Yn 1839 ail-aliniwyd y ffordd, gyda'r hen ffordd (bellach fwy neu lai yr un fath â Bryn Tirion) yn cael ei disodli gan ffordd fwy syth ymhellach i'r gogledd,



11 Y Mwnt, yn edrych arno o gerllaw Capel Soar. (2021)



11 Cerdyn post o Aber, tua 1900, yn dangos Penrhyn Cottages a'r bryn agored (heb goed yr adeg hon), Ty Newydd ar y dde (ddaeth yn Ty Capel wedyn). Nid oedd bythynnod Prifysgol Bangor wedi'u hadeiladu eto.

[1] https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/North%20Wales%20Snowdonia%20National%20Park_EN.pdf

18fed & 19eg Ganrif

oedd yn golygu adeiladu'r Bont Aber newydd. Mae'r aliniad newydd hwn i'w weld yn glir ar fap degwm 1848 (gweler Ffigwr 07).

3.1.13 Mae cynllun degwm 1848 yn adlewyrchu'r cynllun presennol fwy neu lai, sy'n cynnwys y triongl o strydoedd yn Gadlys, Bryn Tirion a lôn y pentref. Roedd casgliad o dai wedi'i ddatblygu o amgylch yr ardal hon, gyda datblygiadau pellach tuag at y felin. Roedd Melin Aber yn bodoli o 1731 o leiaf, ond gall fod ynghynt. Ar yr adeg hon roedd y pentref cyfan yn eiddo i'r teulu Bulkeley.

3.1.14 Cyrhaeddodd rheilffordd Caer-Caergybi gydag agor gorsaf Aber ar 1 Mai 1848, ond gan fod yr orsaf wedi'i chodi gryn bellter o'r pentref, cyfyngedig fu datblygiad pellach, yn wahanol i Lanfairfechan.

3.1.15 Prynodd ystâd y Penrhyn y tir gan y teulu Bulkeley yn 1863 a'i ddal tan 1925. Sefydlodd ystâd y Penrhyn lawer o'r cymeriad adeiledig hanesyddol a gysylltir ag Aber erbyn hyn. Dros y 30 mlynedd nesaf fe ddatblygon nhw Aber yn bentref stad deniadol gan adfwyio'r arddull werinol, wrth i'r pentref ddechrau sefydlu ei hun yn gyrchfan i ymwelwyr.

3.1.16 Nododd yr ystâd hefyd ailadeiladu eglwys Sant Bodfan gan y practis Pugin, Ashlin a Pugin yn 1878, yn lle'r hen eglwys (gweler Ffigur 10). Roedd yn uchel ei pharch ar y pryd, yn cael ei disgrifio fel 'un o'r enghreifftiau perffeithiaf o bensaernïaeth eglwysig yn esgobaeth Bangor.[2] Adeiliadwyd y capel cyntaf tua 1820 i'r Methodistiaid, rhyw 200km i'r de o'r felin. Daeth yr adeilad presennol yn lle hwn wedyn sydd bellach wedi'i addasu'n dŷ. Adeiladwyd y capel a ddaeth yn ei le, Capel Bethlehem, tua 1896 i gynlluniau gan Richard Davies. Adeiladwyd Capel Soar, y capel Wesle, ger melin Aber yn 1827 i ddechrau, ond fe'i haddaswyd ers hynny ac mae hwnnw'n gartref hefyd erbyn hyn.

20fed Ganrif

3.1.17 Bu diwydiant ar raddfa fechan yn amlwg yn y dyffryn o ddyddiau cynnar. Nodir chwarel lechi fach ar y map degwm (1848), ond roedd eisoes wedi darfod erbyn hynny[3]. Cyn 1889 cafodd y felin fechan (i'w gweld mewn darluniau cynnar) ei hailadeiladu ar yr un safle fel melin yd fwy sylweddol oedd yn cael ei phweru gan ddŵr. Dyma'r adeilad sydd fwy neu lai ar ôl heddiw ac yn wreiddiol roedd ganddo olwyn ddŵr gaeedig ar yr ochr ddwyreiniol. Troswyd y felin yn rhannol yn adnodd i'r gymuned yn 2006.

[2] Hubbard et. al. Buildings of Wales, Gwynedd.
3 Hall, E. Hyde (1811), A Description of Caernarvonshire (1809–11) (1952 edition).



12 Yr Aber Falls 'Halt' (Hotel yn ddiweddarach) c. 1950. To crwm gwreiddiol y garej i'w weld ar y dde.



13 Golygfa hir o Aber o'r Ffridd (2021).

3.1.18 Adeiladwyd gwesty a garej yr Aber Falls ar ddechrau'r 1930au yn dilyn gwerthu'r pentref gan Ystâd y Penrhyn. Strwythur rhychog nodweddiadol oedd y garej yn wreiddiol gyda tho bwaog, tebyg i sied wair, yn dwyn atogfion am y cyfnod moduro cynnar. Roedd yn cael ei adnabod fel yr 'Aber Falls Halt' tan ganol yr ugeinfed ganrif.

3.1.19 Mae'r casgliad hwn yn enghraifft gynnar ddiddorol, wedi'i chadw'n eithaf da, o'r hyn sy'n cyfateb i fan gwasaneth. Y Café Royal oedd y byngalo drws nesaf, ac roedd siop fwyd ym Mryn Tirion.

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

4.1.1 Ychydig mae ffurf anheddiad Aber wedi newid ers map degwm 1848, ei ffurf anheddiad hirfain yn dilyn topograffi ochrau serth y dyffryn.

4.1.2 Mae 'triongl' y ffyrdd sy'n ffurfio Gadlys, Bryn Tirion a lôn y pentref wedi'i leoli yn y pwynt lle mae'r anheddiad yn ehangu i gwrdd â'r gwastatir arfordirol. Mae ehangu'r ffurf hon i gwrdd â'r ffordd ddiweddarach yn adlewyrchu esblygiad yr anheddiad i ymateb i'r llwybr trafnidiaeth.

4.1.3 Yn fwy diweddar, prin wnaeth dyfodiad yr A55 effeithio ar gynllun yr anheddiad, yn aros fwy neu lai ar aliniad y ffordd gynharach, ond mae'n amlwg iddi gael effaith weledol gref. Ni fu fawr o ddatblygiad diweddarach, ond codwyd rhes fechan o dai cyngor pâr i'r gogledd-ddwyrain o'r felin, rhwng 1948 ac 1962. Codwyd rhes o dai teras i wasanaethu fferm Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ar ddechrau'r 20fed Ganrif. Roedd y fferm ei hun wedi'i lleoli yn Nhan-y-Fynwent, ffermdy mawr o'r 19eg ganrif ger yr eglwys (Llys Onnen erbyn hyn).

4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth mae nifer o olygfeydd allweddol sy'n dangos naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, sy'n caniatau gwerthfawrogi nodweddion arbennig neu strwythurau allweddol neu sy'n rhoi dealltwriaeth iawn o'i ddatblygiad o fewn y tirlun ehangach. Mae golygfeydd eraill yn rhai y gwelir cip ohonynt, rhwng adeiladau neu at nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth neu gymeriad yr ardal.



14 Golygfa tuag at y rheithordy, gyda manylion o'r adfywiad gothig. (2021)



15 Mae cipolygon o'r Mwnt o'r tu fewn i'r pentref yn bwysig (2021).

4.2.2 Mae'r golygfeydd naill ai'n statig (golygfa benodol i un cyfeiriad) neu'n ddynamig, yn cwmpasu maes gweledigaeth o bwynt arbennig.

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gweler Ffig 16):

A-B Golygfeydd dynamig sy'n dangos ffurf yr anheddiad yn glir, ei gynllun canoloesol a'r cyfosodiad o amgylch Pen-y-mwd. Cymerwyd y golygfeydd hyn o'r llwybr lefel uchel ar lethrau Ffridd Ddu.

C Golygfeydd dynamig i fyny'r dyffryn ac ar draws tir amaethyddol i Afon Aber

D-F cipolwg o'r mwnt o'r tu mewn i'r pentref. Nid yw'r mwnt yn cael ei weld yn dda, gan fod adeiladau diweddarach yn ei chuddio, felly mae'r cipolygon hyn yn fwy pwysig.

G golygfeydd o ffasâd adfywiad-gothig y rheithordy ar draws tir agored a gardd. Mae'r olygfa hon yn darlunio gwerthfawrogiad cynnar o Aber fel lle prydferth a gwella'r adeiladau i gael effaith weledol – dechreuad twristiaeth gynnar.

H golygfeydd tuag at y Felin a hen Gapel Soar. Golygfa allweddol o'r prif strwythurau, er eu bod wedi newid yn sylweddol.


I golygfeydd tuag at dŵr yr Eglwys ar draws tir amaethyddol i'r gorllewin.

J golygfa o Gapel Bethlehem – Golygfeydd agored o'r capel diweddarach

K Golygfa ddynamig o grŵp o adeiladau o ddechrau'r 19eg Ganrif (o bosibl ynghynt) y tu ôl i Westy Aber Falls.

4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Nodweddir mannau gleision Aber fel ffermdir agored yn cwrdd â'r anheddiad, neu drwy gyd-destun crefyddol megis mynwnet Sant Bodfan neu osodiad Capel Bethlehem.



Golygfeydd Allweddol
1:5000 ar A4

16 Golygfeydd allweddol ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Coed
1:5000 ar A4

17 Coed a Gorchmynion Cadw Coed ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

4.3.2 I'r dwyrain o'r pentref mae'r ardal gadwraeth yn cwmpasu ardal o ffermdir, gyda waliau cerrig a chorlan yn ffinio â'r afon. Mae cymeriad tirlun cryf i'r ardal hon sy'n cynnig cipolygon at yr afon, yn dod yn fwy mwyn tua'r gogledd, gyda'r waliau cerrig a'r tir pori amaethyddol o gymeriad mwy agored

4.3.3 Mae'r gosodiad i'r de o'r mwnt, safle'r llys o bosibl, yn arbennig o arwyddocaol o safbwynt diffinio cymeriad arbennig Aber, ac yn cynnig dolen weledol a ffisegol ar draws canrifoedd lawer o hanes.

4.3.4 Mae'r fynwent yn nodedig, mae'n debyg mai dyma safle'r anheddiad cynharaf. Heddiw caiff ei chymeriad ei diffinio gan gerrig beddi a beddrodau o ansawdd uchel. Porth mynwent modern yw mynedfa'r fynwent, a ail-adeiladwyd yn 2020, ac adleolwyd y gofeb ryfel o'r tu mewn i Eglwys Sant Bodfan.

4.3.5 Dangosir grwpiau nodweddiadol eraill o goed ar y cynllun yn Ffigur 17, mae'r rhain yn cynnwys:

- Coed ywen unigol yn y fynwent.
- Grwpiau ac enghreifftiau ar wahân o goed cyll a llwyfenni llydanddail (bellach yn brin yn y DU) ar lan Afon Aber y'u gwelir o'r ffordd ar ochr ddeheuol yr ardal gadwraeth.[4]
- Mae'r dderwen ar ben y mwnt yn llawn cymeriad, wrth edrych arni ar draws yr iard yng nghefn Tan-y-dderwen, ond gall hefyd fod yn cael effaith andwyol ar archaeoleg y mwnt.

5.0 Cymeriad

5.1 Golwg Cyffredinol

5.1.1 Canfyddir cymeriad Abergwyngregyn yn ei berthynas â'i leoliad topograffig. Mae hyn yn sylfaenol i'w sefydlu fel maesdref i dywysogion Gwynedd, ei rôl ar gyffordd dwy ffordd yn golygu fod Aber wedi bod o arwyddocâd strategol bob amser, sy'n cael ei adlewyrchu yn y mwnt, a'r hanes canoloesol dilynol.



18 Coed ynn gosgeiddig a cherrig beddi cerfiedig yn nodweddion o'r fynwent. (2021)



19 Waliau cerrig, tir amaethyddol agored, llethrau coediog, de ddwyrain y pentref (2021).

[4] https://www.first-nature.com/waleswildlife/n-nnr-coedydd-aber.php

5.1.2 Gellir gweld ei ddatblygiad fel pentref ystâd yn natblygiad bythynnodd stad hardd, a grëwyd nid yn unig fel llety ymarferol, ond heyd i gefnogi marchnad dwristiaid oedd yn dod i'r amlwg.

5.1.3 Yn dilyn datblygu llety cynnar yn ail hanner yr 19eg ganrif a dechrau'r 20fed, mae twristiaeth yn dal yn sylfaenol i economi'r pentref.

5.1.4 Gyda lôn bost Telford yn cynnig 'ffordd osgoi' i'r pentref ar ddechrau'r 19fed ganrif, datblygodd Aber mewn modd cymharol ddistadl, yn adlewyrchu perchnogaeth yr ystâd a'r newidiadau yn yr economi wledig, gyda datblygu'r felin a gweithrediadau diwydiannol ar raddfa fechan.

5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Mae cymeriad presennol y pentref yn idiosyncratig ac amrywiol, ac mae ystod eang o arddulliau pensaernïol yno. Mae'r rhain yn adlewyrchu esblygiad y pentref a'r cyfnodau pan roedd perchnogion gwahanol yn dod â syniadau newydd a sefyllfa economaidd y pentref yn newid.

5.2.2 Mae'r cymeriad pensaernïol yng ngogledd yr ardal gadwraeth yn adlewrychu pwysigrwydd cynyddol y ffordd ddwyrain-gorllewin ar ddechrau'r 20fed ganrif. Mae Gwesty'r Aber Falls yn ymgorffori'r diddordeb mewn ffurfiau adeiladu traddodiadol a oedd yn dod gyda phensaernïaeth gwestai min ffordd yr 1930au. Mae'r gwesty yn enghraifft sydd wedi'i gadw'n dda gyda'r ffenstri math Crittall ac heb ei newid fawr ddim. Yn anffodus mae'r garej rychiog wreiddiol nesaf ato wedi'i cholli, a'r hyn ddaeth yn ei lle bellach yn gaffi/siop hufen iâ. I'r de-ddwyrain o'r gwesty, mae'r Café Royal gwreiddiol, sydd bellach yn fyngalo, o'r un math o gyfnod a manylder â'r gwesty, ac wedi cadw ffenestr ddur Crittall lydan.

5.2.3 Y tu ôl i'r casgliad ar ymyl y ffordd, mae dechrau'r pentref cynharach, gyda rhai enghreifftiau da o anheddau cynhenid Sioriadd ffynt dwbl o ddiwedd y 18fed/dechrau'r 19eg ganrif, Ceris a'r hen Swyddfa Bost (nesaf at Gapel Bethlehem). Gellir gweld rhagor o dai ffrynt dwbl o'r cyfnod gyferbyn â'r felin (Tremynfa) a ger nant y felin (Glanrafon). Mae rhai o'r tai hyn (Tremynfa, Ceris) wedi cadw'r ffenestri codi.

5.2.4 Mae tai 'adfywiad gwerinol' ystâd y Penrhyn yn creu cornel ddymunol i gyffordd Gadlys a ffordd y pentref, yna i'r gorllewin wrth i'r ffordd fynd i fyny'r rhiw tuag at Gapel Soar, y cyfan yn creu effaith hardd iawn. Mae'r pâr rhestredig o fythynnod 1 a 2 Tan-y-dderwen wedi'u gwneud o wenithfaen pitsh ar hap, gyda thalcen a chanopi bargodol a chynalbrenau bae a



20 Aber Falls Hotel (yr hen Halt), wedi cadw'r ffenestri dur gwreiddiol (2021).



21 Bythynnod Rhestredig y Penrhyn Bron Derw a Tan-y-Bryn. (2021).

chrogwydd. I'r dwyrain, mae'r rhes ddiweddarach (heb ei rhestru) o fythynodd, yn cyflwyno llawr cyntaf gyda llechi crog ac addurniadau brics coch ar ddrysau a ffenestri'r llawr iaf, gyda gweinthfaen pitsh, di-batrwm rhyngyddynt. Y cyfan o dan do llechi slip. Mae'r cyferbyniad rhwng llechen grog y Penrhyn a'r gweinthfaen yn amlwg ac yn ddymunol. Gwelir y cyferbyniad hwn hefyd ar Bron Derw (i'r de o Dan-y-dderwen, sydd hefyd â chorn brics, ar ongl o 45 gradd i'w godre.

5.2.5 Mae bythynnod cynharach y Penrhyn, o bosibl gan hoff bensaer yr ystâd, George Benmore (Pevsner), i gyd wedi'u rhestru. Un llawr yw'r rhain fel rheol, er bod Ddol Cottages wedi'u haddasu i gael ffenestri dormer llawr cyntaf a goleuadau to. Mae gan Ddol Cottages a Tyn-y-Buarth wenithfaen pitsh ar hap ar wyneb y stryd, gyda rwbel ar hap i'r ochrau. Gwnaed y simneiau o frics peirianneg ac maent wedi'u gosod ar 45 gradd ar odre carreg. Mae'r tai fel arfer o lechi'r Penthyn (mewn cyfeiriadau cyfartal). Bu rhywfaint o newid i'r ffenestri, ond mae Tyn-y-Buarth wedi cadw'r casmentau gwreiddiol, wedi'u gosod mewn fframiau myliynog cryf, wedi'u rhannu'n fertigol yn dair adran. Mae gan ffenestri Bro Dawel is-raniad fertigol hefyd. Ar y talcennau sy'n bargodi mae cyplysau ffug. Mae'r elusendai (dal i fod yn elusendai), gyferbyn â Chapel Soar wedi cael eu newid (yn wreiddiol roedd tri bwthyn), ond y rhain oedd y cynharaf o'r arddull 'cottage orné' ac maent yn cadw eu cynteddau bargodol (er eu bod bellach wedi'u hamgau).

5.2.6 Mae Capel Wesle Soar yn gyfuniad o'r is-Glasurol a'r arddull gynhenid. Mae wal fechan wrth y mynediad, gyda thalwyneb i'r Gogledd-orllewin. Gro chwipio sydd ar du allan y capel gyda gwaith stwco, yn cynnwys architrafau a bandiau tywysennog. I fynd i mewn i'r capel roedd cyntedd talcennog o dan ffensetr fwa gron ganolog gyda ffenestri o ben cylchrannol bob ochr. Mae'r capel wedi dioddef i raddau gan newid amhriodol, y mwyaf niweidiol oedd y ffenestri UPVC pren ffug, sydd wedi effeithio ar yr olygfa allweddol i fyny'r rhiw tuag at y rhaeadrau. I'r dwyrain o Gapel Soar, mae Tŷ Capel wedi'i gadw'n dda yn allanol mewn carreg rwbel, gyda chonglfeini, mae ganddo'r ffenestri gwreiddiol cymesur gyda myliniau a chroeslath, a chyntedd talcennog yn bargodi (N).

5.2.7 Daw Melin Aber o'r 19eg ganrif yn bennaf, ond fe'i neiwidiwyd yn helaeth. Mae'r adain ogleddol, o garreg rwbel, gyda linteli llechen (neu wyneb llechen), bellach yn gweithredu fel canolfan gymunedol gyda chaffi a chanolfan ymwelwyr ar y llawr gwaelod. Mae'r ffenestri yn fodern, pob un o dan do llechen y Penrhyn. Ceir estyniad modern, llechen grog i'r gogledd.



22 Yr elusendai (2021).



23 Hen Felin. (2021).

Gro chwipio o ansawdd gwael sydd i'r adain ddeheuol, gyda tho llechi uwchben. Mae graddfa'r felin, yn arbennig, yn bwysig, yn dangos cysyllgiad clir â rhan diwydiant yn hanes Aber.

5.2.8 Mae gan y datblygad hirfain ar y ffordd i'r rhaeadrau gymeriad pendant mwy gwledig, yn arbennig y rhes o fythynnod un llawr isel (Glen Cottage a Breichiau).

5.2.9 Nid oes fawr o strwythurau amaethyddol yn yr ardal gadwraeth mwyach, ond mae rhes fach y tu ôl i Tan-y-Dderwen. Mae'r rhain yn cynnwys sied wair wrymiog o ddechrau'r 20fed ganrif a thai allan bach o'r 19eg ganrif, o dan y mwnt. Mae gan y grŵp hwn nodwedd amlwg ac arbennig.

5.2.10 Ychydig ar wahân i'r pentref, mae'r rheithordy (gweler adeiladau rhestredig) yn cynnig cipolwg trawiadol ar ennyd bensaernïol yn hanes Aber. Mae triniaeth gynnar yr adeilad yn yr arddull adfywiad gothig ffasiynol yn rhan o ddechrau gweld Aber fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r olygfa ar draws yr ardd at yr addasiadau gothig hyn a'r manylion eu hunain yn werth sylw. Mae'r eglwys ei hun yn yr arddull gothig addurniedig, wedi'i adeiladu'n dda ac yn gyfan.

5.3 Deunyddiau

5.3.1 Y prif ddeunydd adeiladu yn Abergwyngregyn yw carreg, gwelir gweinthfaen gynnar yn yr anheddau a'r waliau cynharaf. Byddai tai cynnar mwy distadl wedi defnyddio meini geirwon. Gellir gweld rhai o'r rhain o hyd yn y waliau terfyn.

5.3.2 Ceir amrywiaeth eang o garreg sy'n adlewyrchu'r gwahanol berchnogaethau a gwelliannau mewn cyfathrebu. Mae'r garreg yn amrywio o'r gwenithfeini lleol, i lechi'r Penrhyn (yn bennaf). Roedd llechi'n cael eu cloddio am gyfnod yn y dyffryn ond nid oeddent o safon uchel. Mae triniaeth y garreg yn amrwyio gryn dipyn hefyd. Mae'n debyg fod bythynnod Penrhyn yn defnyddio carreg Penmaenmawr, pitsh a hap-batrymog, gyda gwahanol fathau o addurniadau, yn cynnwys llechi a brics. Mae llechi crog yn nodwedd hefyd.

5.3.3 Llechi yw'r rhan fwyaf o'r toeau ac o'r 19eg a'r 20fed gnarif, llechi hollt cyfartal. Dengys lluniau hanesyddol y llechen llawer cynt, fwy trwchus, lleol mae'n debyg cyn Pernhyn, mewn patrymau lleihaol, a gwellt ar adeiladau amaethyddol.



24 Bythynnodd un llawr, Glen Cottage a Breichiau (2021).



25 Adeiladau amaethyddol o amrywiol oed a chymeriad, tu ôl Tan-y-Dderwen. (2021).

5.3.4 Daeth rendrad yn ddeunydd amlwg yny pentref. Fe'i defnyddid i ddechrau i guddio cerrig rwbel bras, daeth yn orffeniad ym mhob man, o ddechrau'r 20fedG. Mae Capel Soar yn defnyddio rendrad a manylion wedi'u rendro i greu ymddangosiad coeth. Mae gorffeniadau rendro diweddarach, fel y gro chwipio ar y felin neu hen Gapel MC Minafon yn niweidiol i ansawdd deunydd yr ardal.

5.3.5 Mae triniaethau a bandiau tywodfaen Sant Bodfan yn anarferol yn y pentref, ond yn ffurfio cyfansoddiad effeithiol mewn cyferbyniad â'r muriau carreg pitsh o wenithfaen tywyll, ac maent yn arbennig o drawiadol gyda'r cerrig beddi tywyll a'r coed yw sy'n nodweddu'r fynwent.

5.4 Ffiniau

5.4.1 Yn amlach na pheidio, mae ffiniau wedi'u nodi drwy waliau cerrig, yn bennaf yn y gwenithfaen lleol, er bod enghreifftiau lleol yn defnyddio'r llechi sydd bellach yn haws eu cael o Flaenau neu'r Penrhyn.

5.4.2 Mae'r waliau rwbel (gwenithfaen) sy'n arwain i fyny o lôn y pentref tuag at y felin a Chapel Soar yn arbennig o bwysig, yn bennaf gysylltiedig ag adeiladau ystâd y Penrhyn (gweler asedau dynodedig), mae'r pileri giât addurnedig yn anarferol ac yn arbennig o bwysig. Y tu hwnt i'r prif bentref, waliau cerrig sydd yn ffinio'r ffordd tuag at Bont Newydd, yn rhan fwyaf yn dydddio'n ddiweddarach, ond yn bwysig yng nghyd-destun gosod y tirlun.

5.4.3 Mae newidiadau diweddarach wedi effeithio'n andwyol ar y cymeriad hwn, gatiau modern, er enghraifft y rhai yn Bronant, i ffin ddeheuol yr ardal gadwraeth.

5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill.


5.5.1 Mae gan y pentref nodweddion a gwrthrychau eraill sy'n cyfrannu at ansawdd a diddordeb yr Ardal Gadwraeth.

5.5.2 Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd bychain o wyneb coblog, fel y rheiny y tu allan i 1-3 Gadlys, arwynebau meddalach, di-fetel fel yr un sy'n arwain at yr adeiladau amwaethyddol yng nghefn Tan-y-dderwen neu'r llwybr at Tan-yr-allt.

5.5.3 I Tan-y-dderwen, (i gefn Llewelyn Cottage), mae gwaelod coes lamp Fictoraidd.



26 Rwbel, addurniadau brics a llechi crog, Glydfan (2021).



27 Cerrig cae yn hen wal Ty'n Ffridd.. (2021).

5.5.4 I'w nodi hefyd mae'r toiled modern a'r man dehongli wrth ymyl Pont Aber. Er nad yw hwn yn strywthur nodedig, mae'n arwyddocaol gan ei fod yn tynnu sylw llawer o ymwelwyr at hanes Aber ac felly'n codi ymwybyddiaeth.

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Mae'r asedau dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) i'w gweld yn yr ardal gadwraeth (gweler Ffigur 32):

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *CN007 Mwnt Castell Aber (Pen-y-Mwd)*
- *CN218 Tir Caeëdig a Strwythurau Cysylltiedig yn Pen-y-Bryn*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *3651 Pen-y-Bryn*
- *3652 Bwthyn Pen-y-Bryn*
- *3654 Yr Hen Reithordy*
- *3656 Gatws/Ysgubor yn Pen-y-bryn*
- *22907 (1) Tan-y-dderwen*
- *22911 (2) Tan-y-dderwen*
- *22912 Bron Derw*
- *22908 Tan-y-Bryn*
- *22904 (1) Ddol Cottages*
- *22913 (2) Ddol Cottages*
- *22905 Tyn-y-buarth*
- *22915 Fron*
- *22906 Bryn Hyfryd*
- *22914 Bro Dawel*
- *81043 Ty'n Ffridd*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Posibl.

Ystyrir y dylai Eglwys Sant Bodfan gael ei hystyried i'w rhestru ar y rhestr genedlaethol.

6.2 Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig Annynodedig

Nodwd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol yn yr ardal gadwraeth fel rhai o ddidodreb lleol arbennig (gweler Ffigur 33):



28 Bythynnodd Rhestredig, 1 a 2 Tan-y-Dderwen (2021).



29 Eglwys Sant Bodfan o'r gogledd-ddwyrain. (2021).

- *Gwesty Aber Falls.*
- *Capel Bethlehem*
- *Bryn Tirion ar gornel Gadlys a Bryn Tirion.*
- *Ceris*
- *Llewellyn Cottage*
- *Teras nesaf at Tan-y-Dderwen (yn flaenorol Ystâd y Penrhyn)*
- *Adeiladau amaethyddol y tu ôl i'r uchod.*
- *Capel Soar*
- *Ty Capel*
- *Tremynfa*
- *Y Capel Methodist gwreiddiol a'r tŷ gerllaw.*
- *Nant-y-Felin*
- *Elusendai (Bodalon a Bodfan).*
- *Melin Aber (Hen-Felin)*
- *Bythynodd un llawr ar y ffordd i Bont Newydd (Glen Cottage a Breichiau) yn cynnwys y tŷ allan cyfagos.*

6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

6.3.1 Dylid hefyd ystyried '*Cofrestr Adeiladau Traddodiadol*' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.

7.0 Ffin yr Ardal Gadwaraeth.

7.1.1 Yn dilyn yr arfarniad, ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr ardal gadwraeth.

8.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

8.1.1 Roedd Abergwyngregyn ar un o'r prif lwybrau trafnidiaeth rhanbarth o adeg y Rhufeiniaid o leiaf. O ganlyniad mae posibilrwydd cryf iawn fod dyddodion archeolegol ar draws yr ardal gadwraeth.

8.1.2 Mae hyd a lled y llys ac unrhyw anheddiad Canoloesol cnewyllol yn dal yn aneglur iawn, felly mae cryn bosibilrwydd fod dyddodion archeolegol yng nghyffiniau'r mwd a'r archwiliad cynharach o amgylch Pen-y-Bryn

9.0 Asedau Dynodedig Eraill



30 Arwynebau coblog, Gadlys (2021).



31 Capel Bethlehem, adeiladwyd c.1896; cynllun Richard Davies. (2021).

9.1 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (SoDdGA)

9.1.1 Mae Coedydd Aber yn Warchodfa Natur Genedlaethol ddynodedig.[5]

9.1.2 Mae pob Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) yng Nghymru yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r rhan fwyaf hefyd wedi'u datgan o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu Ramsar (gwlyptiroedd). Mae'r dynodiadau hyn yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol bellach.

9.1.3 Mae'r warchodfa natur yn lapio o amgylch ffin ddeheuol yr ardal gadwraeth, yn ymestyn i'r llethr islaw Ffridd Ddu ac ar hyd glan ddwyreiniol Afon Aber.

9.2 Gorchmynion Cadw Coed

9.2.1 Mae yna orchymyn cadw coed grŵp sy'n ymdrin â *Pob coeden o ba rywogaeth bynnag sy'n sefyll yn yr ardal.* (cyf. Gwynedd 40) Yr ardal hon yw ffin yr hyn a adnabyddir erbyn hyn fel Llys Onnen, ffermdy mawr o'r 19eg ganrif ger yr eglwys (yr hen Tan-y-Fynwent). Gweler Ffigur 17.

9.3 Tirwedd Hanesyddol Dynodedig

9.3.1 Mae Abergwyngregyn wedi'i leoli yn Nhirwedd Hanesyddol Cofrestredig Gogledd Arllechwedd. HLW (Gw) 12. Gweler Ffigur 34.

http://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=en&id=HLW%20(Gw)%2012

[5] https://naturalresources.wales/days-out/places-to-visit/north-west-wales/coedydd-aber-national-nature-reserve/?lang=en



Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig
1:5000 ar A4

32 Listed Buildings and Scheduled Monuments (© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100022403)



Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig
1:5000 ar A4

33 Adeiladau o arwyddocad lleol ([[H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

10.0 Bioamrywiaeth

10.1 Coed

10.1.1 Gweler 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.

10.1.2 Gweler 4.3 i gael disgrifiad o'r prif goed/ardaloedd o goed o fewn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.


10.1.3 Mae ardaloedd o goetir hynafol a adferwyd i'w gweld i'r dwyrain o'r ardal gadwraeth ar lethrau Breichiau ac Allt-y-Bont.

10.1.4 Ar y Ffridd (y tir rhwng llawr y dyffryn a'r mynydd uchel) gwelir y ddraenen wen a choed afalau bach sur ac mae'r rhain yn creu blanced o flodau gwyn ym mis Mai.

10.2 Rhywogaethau Gwarchodedig.

10.2.1 Gwyddom fod nifer o rywogaethau gwarchodedig allweddol yn bresennol yn yr ardal gadwraeth ac oddi amgylch iddi. Mae'r rhywogaethau adar yn cynnwys:

- Gwybedogion brith
- Telor y coed
- Tingoch
- Gylfingroes
- Mae'r afon sy'n llifo'n gyflym yn cynnig cynefin i fronwen y dŵr a'r siglen lwyd, tra bod y ffridd (y tir rhwng llawr y dyffryn a'r mynydd uchel) yn denu rhywogaethau fel corhedydd y coed a thinwen y garn.
- Weithiau gellir gweld mwyalchod y mynydd a heidiau o frain coesgoch ar lethrau agored y mynydd ac yr ymyl y graig serth ar ben pellaf y dyffryn.
- Cofnodwyd barcutiaid a bwncathod ac adar ysglyfaethus eraill gerllaw.



Dynodiadau Eraill
1:5000 ar A4

34 Dynodiadau Eraill ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

10.2.2 Gwyddom fod yr afon yn darparu cynefin i boblogaeth o ddyfrgwn[6] a chofnodwyd gwencïod, llygod coch a llygod y maes hefyd.


10.2.3 Mae Coedydd Aber, ynghyd â llawer o'r coetiroedd derw yng Ngogledd Cymru, yn arbennig o dda o ran ffyngau. Mae rhai o'r rhywogaethau y gellid disgwyl eu gweld yn yr Hydref yn cynnwys *Fly Agaric, Oakbug, Milkcap, a Turkeytail.*

10.2.4 Dangosodd arolwg diweddar oedd yn gysylltiedig ag addasiadau i'r A55 gan EDC fod gweithgaredd ystlum helaeth mewn safleoedd i'r gogledd a'r gorllewin o'r ardal gadwraeth[7]. Roedd y rhywogaethau'n cynnwys:

- Pipistrelle *Pipistrellus pipistrellus/pygmaeus*
- BrownLong-eared *Plecotus auratus*
- Myotis *Myotis sp.*
- Noctule *Nyctalus noctula*
- Serotine *Eptesicus serotinus*


10.2.5 Mae pysgod mudol fel yr eog a'r brithyll/brithyll môr a'r llysywen Ewropeaidd yn bresennol yn Afon Aber.

[6] https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Biodiversity/Species-Action-Plans/Otter-SAP.pdf
[7] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-07/a55-abergwyngregyn-to-tair-meibion-improvements-env-statement-vol-2-appendix-c.pdf



YR AIL RAN: CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH

1.0 Crynodeb o ddadansoddiad CGCB



2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Abergwyngregyn wedi cadw llawer o haenau dealladwy a gweladwy o'i hanes unigryw a phwysig ac mae'n cadw elfennau hanfodol ei gymeriad arbennig. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddarach yn dechrau bygwth ei werth aesthetig yn arbennig.

2.1.2 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau wedi'u mediannu neu mewn defnydd buddiol ond mae rhai adeiladau arwyddocaol naill ai heb neb ynddyn nhw neu'n cael eu tan-ddefnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ty'n Ffridd, adeilad rhestredig i'r de o ganol y pentref sy'n adfail ac mewn cyflwr gwael.
- Nid yw eglwys Sant Bodfan wedi'i restru, ond mae'n adeilad amlwg a phwysig. Deellir ei bod yn cael ei defnyddio i storio pethau; ond mae'n dirywio ac nid yw hyn yn ddefnydd addas.
- Mae'r adeilad ar gornel Gadlys a Bryn Tirion, sydd â siop (ddim yn cael ei defnyddio) yn adeilad o gymesuredd da a photensial.
- Y rhan o'r felin heb fod yn gymunedol sydd wedi mynd â'i ben iddo ac yn flêr ac wedi'i rendro â gro chwilpio modern. Mae'n amlwg iawn yn enwedig wrth ddod ato o'r de.
- Ar adeg y gwaith maes i'r adroddiad hwn, nid oedd y Gwesty yn weithredol. Byddai newid i lety domestig yn niweidiol i'r pentref a'r ardal.

2.1.3 Mae rhai problemau sylweddol sy'n effeithio'n andwyol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid y gwaith pren hanesyddol ar ffenestri a drysau i rai newydd modern, uPVC fel arfer.
- Defnyddio rendrau a phanet modern yn allanol.
- Datblygiadau neu estyniadau o ansawdd gwael.



35 Ty'n Ffridd, adeilad rhestredig mewn cyflwr gwael iawn ac yn risg uchel.



36 Cafodd ffenestru uPVC modern effaith andywol ar gymeriad y pentref. Mae ffenestri modern capel Soar yn arbennig o amlwg.

- Colli triniaethau traddodiadol i ffiniau.
- Gormod o gerbydau, parcio a thraffig.

2.1.4 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Newid y ffenestri a'r drysau ar adeiladau allweddol yn yr ardal gadwraeth yn cynnwys Capel Soar, rhannau o'r Hen Felin a'r rhan fwyaf o'r tai sydd heb eu rhestru.
- Rendro rhan ddeheuol yr Hen Felin a llawer o'r tai o'r 19eg ganrif.
- Mae'r defnyddiau newydd (caffi a siop hufen iâ) i hen garej Gwesty'r Falls yn gadarnhaol, ond mae'r newidiadau (cladin ayb.) yn amlwg iawn yn weledol wrth ddod i mewn i'r pentref.

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Mae Ty'n y Ffridd yn adeilad rhestredig sy'n dadfeilio ar hyn o bryd tuag at ochr ddeheuol yr ardal gadwraeth. Mae ganddo ganiatâd i'w drosi yn lety gwyliau (cyf. NP3/10/LB79B), ond roedd hyn yn 2018 ac ni fu unrhyw waith hyd yma.

2.2.2 Nid yw eglwys Sant Bodfan wedi'i rhestru ar hyn o bryd (er argymhellir adolygu hyn yn yr adroddiad yma) ac nid yw'n lle addoliad bellach. Deellir ei bod yn cael ei defnyddio fel storfa, ond mae ei chyflwr yn dirywio.

2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

2.3.1 Gwnaed dadansoddiad CGCB i Ardal Gadwraeth Abergwyngregyn. Defnyddir hwn i ganfod y problemau, ond hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Bydd wedyn yn sail i greu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

2.3.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol i weithredu arnynt, i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi ailosod y manylion adeiladu traddodiadol ac uwchraddio cynaliadwy i gael gwell perfformiad amgylcheddol.



37 Deunyddiau dŵr glaw ar goll a phlanhigion yn tyfu yn y meini copa. Eglwys Sant Bodfan.



38 Hen Felin, elfen gymunedol (i'r chwith, heb ei rendro) a'r elfen breswyl i'r dde (wedi'i rendro mewn gro chwipio modern).

- Dod o hyd i ddefnyddiau newydd addas i Ty'n y Ffridd ac Eglwys Sant Bodfan.
- Ceisio gwella golwg rhai o'r adeiladau allweddol eraill, e.e. Hen Felin (adain dde), Capel Soar (y ffenestri yn bennaf) a ffenestri allweddol eraill.
- Adeiladu ar y gwaith ardderchog i ddatblgu cynhyrchu ynni cynaliadwy yn Aber, a allai fod yn feincnod i bentrefi eraill yn hyn o beth.
- Posibilrwydd o alluogi mynediad i'r mwnt, a darparu gwell dehongli, gan adeiladu ar yr hyn a geir yn y Ty Pwmp.
- Ystyried gwella cysylltiadau i gerddwyr i'r rhaeadrau.

2.3.3 Mae'r CGCB yn adanbod nifer o wendidau a bygythiadau, sy'n cael eu nodi fel pwyntiau gweithredu, mae'r rhain yn cynnwys:

- Ceisio ymgysylltiad cadarnhaol i wyrdroi addasiadau niweidiol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Sicrhau fod mannau gwyrdd a golygfeydd allweddol yn cael eu gwarchod drwy ymgysylltiad lleol ac wrth ystyried ceisiadau i ddatblygu.
- Ystyried opsiynau i gael gwell rheolaeth dros y llifau cerbydau i'r rhaeadrau a lleihau problemau parcio, tra'n annog y defnydd o wasanaethau lleol, megis Caffi'r Hen Felin.

3.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

3.1 Newidiadau i Ffiniau.

3.1.1 Ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth.

3.2 Gwarchodaeth Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Ceir cyd-destun y fframwaith deddfwriaethol i Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol ***Introduction to Conservation Areas for the 21st Century*** Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi canllawiau a pholisïau cyffredinol.

3.2.2 Fel y nodwyd yn 6.1, Rhan Un, argymhellir ystyried rhestru Eglwys Sant Bodfan a Gwesty Aber Falls. Os nad oes modd gwneud hyn dylent gael eu gwarchod gan gyfarwyddyd Erthygl.

3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Byddai mynd i'r afael â rhai o'r problemau (gweler 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth yn creu'r posibilrwydd o wella'i diddordeb arbennig yn sylweddol. Gellir gwneud hyn drwy bwerau cynllunio neu ganllawiau estynedig.

3.3.2 Mae'r problemau a'r cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Y posibilrwydd o weithredu mesurau rheoli datblygu (cyfarwyddyd erthygl 4) i reoli colli manylion a nodweddion saernïaeth hanesyddol
- Ystyried briff dylunio i sicrhau fod yr adeiladau segur, neu'r rhai a dan-ddefnyddir, yn cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd buddiol neu well.
- Gwella cysylltiadau at y mwnt, a chysylltiadau i gerddwyr at y rhaeadrau.
- Ystyried opisynau i reoli'n well llifau cerbydau at y rhaeadrau a lleihau problemau parcio, tra'n annog defnydd o wasanaethau lleol megis Caffi'r Hen Felin.
- Ceisio rheoli datblygiad mewnlenwi a datblygiadau o ansawdd amhriodol ar gyrion yr ardal gadwraeth.
- Annog ailosod manylion gwaith coed mwy priodol i adeiladau sy'n arwyddocaol yn lleol, yn lle'r uPVC modern.
- Adeiladau ar yr ystod eang o rywogaethau a nodweddion naturiol arbennig o amgylch y pentref a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.

3.3.3 Cynigir fod **canllaw dylunio** yn cael ei ddarparu er mwyn deall ac annog newidiadau priodol yn yr ardal gadwraeth, dylai hwn gynnwys:

- Manylion priodol ar ffenestri, drysau a saernïaeth newydd.
- Graddfa, crynswth a deunydd adeiladau ac estyniadau newydd.

- Parcio, arwynebau, plannu ac ystyriaethau ecolegol.

3.3.4 Defnyddio'r offerynnau uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gweler isod), codi ymwybyddiaeth a phroffil yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid priodol. I gynnwys:

- Ymwybyddiaeth gyda pherchnogion a chymuned Abergwyngregyn.
- Codi ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau i gontractwyr a chrefftwyr lleol.

3.4 Cynaliadwyedd ac Uwchraddio Amgylcheddol

3.4.1 Ceir canllawiau ar y dull cywir o gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatâd angenrheidiol yn Ardal Gadwraeth Eryri yn y ddogfen: ***Advice on Energy Efficiency Measures in Conservation Areas (Planning & Practical Guide)***

3.4.2 Mae gan Aber gyfleoedd naturiol i gynhyrchu pŵer micro ac mae'r rhain eisoes wedi dechrau cael eu defndydio. Mae cynhyrchu ynni dŵr yn digwydd yng nghynllun trydan dŵr Anafon uwchben y pentref. Datblygwyd y cynllun gan Gwmni Adfywio Abergwyngregyn drwy gymdeithas budd cymunedol a grewyd yn arbennig, Ynni Anfon Energy Cyf. Mae'r Cwmni hefyd yn hyrwyddo gwelliannau gwydd i dai yn y pentref ac yn darparu grantiau drwy'r Elusen Dŵr Anafon, a ariannwyd gan Ynni Anafon Energy Cyf.

3.4.3 Dylid cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni cynaliadwy a'u hannog pan nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed yn hollbwysig i'r bioamrywiaeth a'r pwysigrwydd esthetig. Caiff amrywiaeth o goed eu gwarchod gan orchmynion cadw (gweler 8.3). Nodwyd fod gan goed eraill bwysigrwydd yn yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

3.5.2 Ystyrir y gallai'r coed yn y fynwent, yn bennaf yr yw a'r rheiny o amgylch grîn y pentref, gael eu hystyried am orchmynion cadw.

3.5.3 Mae cryn botensial i wella bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, gallai enghreifftiau o weithredoedd gynnwys:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Gall defnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, lle'n briodol i'r dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Gwarchod coed yn ystod gwaith adeiladu
- Peidio ag ymyrryd er mwyn gadael i goed aeddfedu
- Cadw'r pren marw sy'n sefyll a chreu carnau coed marw ar gyfer trychfilod a bywyd gwyllt arall.

3.5.4 Sicrhau fod datblygiadau'n cael eu llywio'n sensitif gan nodweddion cymeriad pendant yr Ardal Gadwraeth a'u bod yn ystyried tystiolaeth arall o nodweddion hanesyddol a thirlun yr ardal o gwmpas.

3.5.5 Sicrhau y bydd cynigion datblygu yn gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.5.6 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a gweithredu prosiectau i gyfoethogi'r tirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.

3.5.7 Annog datblygiadau i gynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

3.5.8 Gwella'r isadeiledd gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth na chymeriad yr ardal gadwraeth.

4.0 Ymgynghori

4.1.1 Ymgynghorwyd ar y Gwerthusiad a Chynllun Rheoliaeth Ardal Gadwraeth gyda'r canlynol::

- Cyngor Cymuned Abergwyngregyn.
- Cwmni Adfywio Abergwyngregyn (ARC)
- Drwy wefan y Parc Cenedlaethol.

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth o ddeunydd wedi'i gyhoeddi a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Gwerthusiad hwn:

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association yn 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester) Hall, W. (1881),

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry (RCAHMW 2015).*

Adroddiad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd rhif 55. *Pen-y-Bryn, Archaeological Assessment,* 1992.

Adroddiad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd. 1040 (Gwyn, D & Robertson, A), *Abergwyngregyn Draft Conservation Area Appraisal*, 2012.

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (1952 edition).*

Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales* (London) (1773-76), *Accessed via:* *https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales*

Parkinson, A.J. (1989) *Pen-y-bryn Additional notes. Detailed notes for the Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales* NA/CA/89/118 (i)

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/North%20Wales%20Snowdonia%20National%20Park_EN.pdf

http://datingoldwelshhouses.co.uk/library/Archreport/Penybryn_Aber_Report.pdf